# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

# Cofnodion y cyfarfod ar 19.05.20

**Dyddiad**: 19.05.20
**Amser**: 16:30
**Lleoliad**: Roedd hwn yn gyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar *Zoom*

**Cadeiryddion**: Suzy Davies AS ac Andrew Campbell (Cyfarwyddwr, Twristiaeth Sir Benfro)
**Ysgrifennydd**: Mia Rees (Uwch-gynghorydd i Suzy Davies AS)
Cefnogaeth gan Adrian Greason-Walker (Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru)

**Mynychwyr**:

| | |
|---|---|
| CYMDEITHAS PARCIAU GWYLIAU A PHARCIAU CARTREFI PRYDAIN | Helen Charlesworth<br>Joan Clark<br>Annie Ridgeway<br>Ros Pritchard OBE |
| Y CLWB CARAFANAU A CHARTREFI MODUR | Emma McQuillan<br>Fiona Bewers |
| TAI HANESYDDOL | Jane Harvey |
| TWRISTIAETH CANOLBARTH CYMRU | Val Hawkins<br>Rowland Rees-Evans |
| TWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU | Jim Jones |
| PLANED | Iwan Thomas |
| RETREATS HOTEL GROUP | Paula Ellis |
| PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD | Sheena Carlisle<br>Louise Dixey<br>Heini Jones |
| WASCO | Clare Hallett |
| GLANNAU ABERDAUGLEDDAU | Lucy Wonnacott<br>Clare Stowell |
| CYMDEITHAS ATYNIADAU YMWELWYR CYMRU | Ashford Price |
| BYTHYNNOD GWYLIAU GOGLEDD CYMRU | Barbara Griffiths |
| TWRISTIAETH SIR BENFRO | Jane Rees-Baynes |
| Y DIRPRWY WEINIDOG DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH | Dafydd-Elis-Thomas AS |
| CROESO CYMRU | Rob Holt |
| CYFARWYDDWR DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH – CROESO CYMRU | Jason Thomas |
| Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr | George Reid |
| UK Hospitality | David Chapman |
| Cymdeithas Twristiaeth Bannau Brycheiniog | Laura Thomas |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Neil Hamilton AS |
| Swyddfa Llyr Gruffydd AS | Mabon Ap Gwynfor |

| | |
|---|---|
| Canol De Cymru | David Melding AS |
| Swyddfa Rhun Ap Iorwerth AS | Heledd Roberts |

**Ymddiheuriadau**:

- Llyr Gruffydd AS
- Mark Isherwood AS
- Simon McGrath, y Clwb Gwersylla a Charafanio

## Agenda

**Cyflwyniad: Suzy Davies AS ac Andrew Campbell, Cynghrair Twristiaeth Cymru**

**Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; Croeso Cymru**

- **Manylion y gefnogaeth a ddarparwyd hyd yma a'i heffeithiolrwydd o ran cau'r bylchau sy'n bodoli**

**Trafodaeth a chwestiynau**

- **Cyfle i bobl godi materion a thynnu sylw at unrhyw fylchau nas ymdriniwyd â hwy**
- **Edrych i'r dyfodol: Ailddechrau'r diwydiant twristiaeth**

**Crynodeb a chloi'r cyfarfod: Suzy Davies AS ac Adrian Greason-Walker, Cynghrair Twristiaeth Cymru**

## Cofnodion y cyfarfod

**Cyflwyniad gan Suzy Davies AS (SD)**

- Croesawodd SD bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod rhithwir cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth.
- Esboniodd SD sut y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal, a gofynnodd i bawb dawelu eu meicroffonau oni bai eu bod yn siarad. Cafodd pawb eu hannog i nodi eu cwestiynau yn y blwch sgwrsio.

**Gair o groeso gan Andrew Campbell (AC)**

- Croesawodd AC bawb i'r cyfarfod.
- Diolchodd i Lywodraeth Cymru (LlC) am ei hymgysylltiad a'i chefnogaeth hyd yma.
- Nododd fod y cyfnod hwn yn un heriol i'r diwydiant.
- Bydd y sector yn parhau i gydweithio â LlC:
    - Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd wythnosol ar ddydd Gwener rhwng cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector a LlC.
    - Mae'r diwydiant yn awyddus i wybod pryd y bydd LlC yn caniatáu i'r diwydiant ailddechrau ei weithgarwch.

**Dafydd-Elis-Thomas AS (DET), y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

- Tynnodd DET sylw at yr heriau a'r materion moesol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.
- Dywedodd DET na fyddai'r Llywodraeth yn rhoi dyddiadau pendant hyd nes bod tystiolaeth wyddonol yn caniatáu iddi wneud hynny.
- Mae angen i LlC edrych ar fynediad i Gymru, o'r tu mewn i Gymru ac o'r tu hwnt iddi.
- Mae'r materion dan sylw yn ysgogi llawer o emosiynau dwys.
- Dywedodd mai twristiaeth yw'r prif beiriant ar gyfer adnewyddu economi Cymru.
- Mae angen edrych ar y sefyllfa bresennol drwy lens iechyd cyhoeddus yn y man cyntaf.
- Rhaid amddiffyn twristiaeth gwasanaeth.
- Rhaid sicrhau bod Cymru'n cael ei gweld fel gwlad ddiogel i ymweld â hi.

**Rob Holt (RH), Croeso Cymru**

- Diolchodd i Gynghrair Twristiaeth Cymru a chynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth am gymryd rhan mewn trafodaethau gyda LlC drwy gydol yr argyfwng.
- Twristiaeth oedd y diwydiant cyntaf i ddioddef ergyd – gan gynnwys y sector digwyddiadau a'r sector lletygarwch.
  - Y sector hwn fydd yr un olaf i fod yn gwbl agored ac yn gwbl weithredol.
- Croesawodd gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU a Chronfa Cadernid Economaidd LlC
  - Mae "nifer dda" o fusnesau ym maes twristiaeth wedi gwneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd.
- Fodd bynnag, mae LlC yn "ymwybodol iawn" o'r "bylchau" sy'n bodoli.
- Bydd cylch arall o gyllid yn cael ei ddarparu drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd:
  - Bydd Ken Skates AS (Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru) yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth yn ystod y diwrnodau nesaf.
- Mae pob penderfyniad yn cael ei ystyried o safbwynt diogelwch yn y man cyntaf.
- Sylwadau ar gyhoeddiad y Prif Weinidog:
  - Mae'r rhan fwyaf o'r diwydiant twristiaeth yn y 'Parth Gwyrdd'
  - Mae rhannau o'r diwydiant yn y 'Parth Ambr'
  - Mae LlC yn gweithio ar y canllawiau ar gyfer pryd y bydd y sector yn gallu dechrau ailagor, ond yn cydnabod nad oes ganddi'r holl atebion.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran cynllunio ar gyfer yr adferiad.

**Cwestiynau a thrafodaeth**

Cwestiynau gan DC:

- Pa rôl sydd gan fusnesau twristiaeth llai o ran bwydo i mewn i waith LlC?
- Cefnogaeth i fusnesau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer TAW.

Cwestiwn gan Jim Jones:

- Mynegodd bryder ynghylch y ffaith na fu busnesau yn destun ymgynghoriad ynghylch y gronfa ardrethi busnes.
- Mae'r bylchau yn cynnwys: llety hunanarlwyo, y rhai nad ydynt yn talu ardrethi busnes a sŵau (er enghraifft, Sŵ Bae Colwyn a Sŵ Ynys Môn).

Cwestiynau a nodwyd yn y blwch sgwrsio:

Jim Jones: Rydym yn pryderu ynglŷn â'r ffaith nad oedd y sector preifat rôl yn rhan o'r broses o lunio'r meini prawf cymhwysedd. Nid ydynt yn bodloni nodau Llywodraeth y DU na nodau Llywodraeth Cymru; yn wir, nid ydynt yn diwallu anghenion y sector chwaith. Roedd bron pob cyngor arall yng Nghymru a Lloegr wedi jest bwrw ymlaen a'i dalu. Faint o gostau ychwanegol ac amser ychwanegol sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r broses o atal taliadau i sector twristiaeth sydd wedi'i wanhau'n ddifrifol?

Barbara Griffiths: Cytuno â Jim Jones – mae nifer o fusnesau hunanarlwyo bach sy'n gymwys ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach yn parhau i gael eu gwrthod.

Joan Clark: Rydym yn ddiolchgar iawn i gael yr holl gyllid. Diolch. Mae wedi bod yn achubiaeth i ni. Yn absenoldeb gwyrth o ryw fath, mae'r sector twristiaeth, i bob pwrpas, yn wynebu tri gaeaf. A oes unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â'r mater hwn os gwelwch yn dda? O bosib, ni fydd parciau carafanau yn cael unrhyw incwm ystyrlon tan gyfnod y Pasg 2021.

Laura Thomas: Adrodd am eiddo hunanarlwyo sy'n talu eu hunain drwy eiddo ar osod sydd wedi'i ddodrefnu, a busnesau Gwely a Brecwast nad ydynt yn talu ardrethi busnes sydd wedi cael eu heffeithio ond nad ydynt wedi cael cymorth grant.

Adrian Greason-Walker: Soniodd y Dirprwy Weinidog am emosiynau. Mae angen i ni fod yn wyliadwrus iawn o'r iaith yr ydym yn ei defnyddio, yn enwedig mewn perthynas â phobl leol a'n cynulleidfa dros y ffin. Mae tensiynau yn dod i'r amlwg ac mae angen eu rheoli. Mae'r mater o ddefnyddio iaith briodol yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant. A oes angen i ni symud yn raddol o neges o aros gartref i ymdrech i swyno pobl? Bydd angen negeseuon clir wrth inni symud ymlaen.

George Reid: Mae'r meini prawf cynhwysiant o ran TAW wedi hepgor cymaint o ficrofusnesau. A ellir cael gwared ar y drefn hon?

Barbara: Mae mynnu bod cyfrifon yn cael eu darparu am gyfnod o ddwy flynedd yn golygu bod busnesau mwy newydd yn cael eu hatal rhag hawlio grantiau o dan y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach, hyd yn oed os ydyn nhw wedi bod yn weithredol am dros flwyddyn ac yn gymwys o dan ofynion Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Andrew Campbell: Mae llawer o fusnesau yn mynegi pryderon cryf ynghylch y diffyg dyddiadau yn y Cynllun Adfer. A allwn ni ddisgwyl gweld dyddiadau penodol yn dod i'r amlwg yn y dyfodol agos?

**Cwestiynau wedi'u hateb gan RH a Jason Thomas (JT)**

- Cydnabuwyd y ffaith bod bylchau yn y cymorth ariannol, a'r ffaith y bydd bylchau'n parhau i ddod i'r amlwg
  - Mae'r pedwar Gweinidog twristiaeth yn cwrdd bob yn ail wythnos ac yn bwydo eu pryderon lleol i mewn i'r trafodaethau ar lefel y DU
- Bydd adborth yn cael ei fwydo i drafodaethau lefel uchel, felly mae angen ei rannu
  - Gorau po fwyaf y manylion penodol sy'n dod i law
- Mae'r broses o ymgynghori â'r sector cyfan yn heriol oherwydd y pwysau sydd ar swyddogion
  - O'r cychwyn cyntaf, y ffocws oedd cael rhywbeth yn ei le
  - O ran y gwaith ymgynghori, cydnabuwyd bod ffocws ar gyrff mwy yn y diwydiant
- Os oes gan y rhai sy'n bresennol enghreifftiau o newidiadau y gellir eu gwneud i'r cynllun cyfredol, rhowch wybod

- Gwnaed penderfyniad i sicrhau bod y cynlluniau yn berthnasol i fusnesau ar raddfa eang yn hytrach na'u bod yn benodol i'r sector
    - Serch hynny, mae awydd i fireinio'r gefnogaeth sydd ar gael
- Meini prawf cynhwysiant o ran TAW: gwnaed dewisiadau a phenderfyniadau anodd, ond mae LlC wedi cydnabod y mater yn ymwneud â'r drefn TAW ac yn edrych arno.
- Pryderon ynghylch y "Trydydd Gaeaf": Mae'r swyddogion yn ymwybodol iawn o'r mater hwn ac am ystyried darparu cefnogaeth yn ôl yr angen.
- Cadarnhaodd RH fod y swyddogion yn ymwybodol o'r holl faterion a godwyd yn y drafodaeth, a bod y materion hyn wedi cael eu codi.
- Mae awdurdodau lleol yn ymdrechu i sicrhau bod arian yn cael ei ddarparu i fusnesau
    - Cododd SD y ffaith bod rhai awdurdodau lleol wedi gwario'r rhan fwyaf o'u cronfeydd dewisol wrth fynd i'r afael â'r difrod a achoswyd gan y llifogydd yn gynharach yn y flwyddyn.
- Croesawyd y cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth y DU yr wythnos diwethaf ynglŷn ag ymestyn y cynllun ffyrlo
- Mae swyddogion yn deall bod Llywodraeth y DU yn ystyried ymestyn ei chynllun hunangyflogaeth
- Cyn y gall busnesau ailagor, bydd ennyn hyder y staff a chwsmeriaid yn allweddol
- Mae LlC yn gweithio ar gynllun ar draws Llywodraethau'r DU i geisio adfer hyder
    - Mae trafodaethau'n digwydd yr wythnos hon i geisio cadarnhau'r manylion

Cwestiynau a phwyntiau a godwyd gan Joan Clark o Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

- Gwerthfawrogwyd cefnogaeth y Llywodraeth
- Mynegwyd pryder ynghylch effaith y 'tri gaeaf'
- Mae'r diwydiant carafanau a pharciau gwyliau yn llunio canllawiau ynghylch y broses o ailagor, ac mae angen i'r mesurau hyn sicrhau diogelwch staff a chwsmeriaid, ond mae hyn yn fynydd o dasg
    - Rhaid i'r holl ganllawiau fod yn gall ac yn bragmatig
- Mae angen negeseuon cadarnhaol ynglŷn ag 'ail gartrefi' (gan gynnwys carafanau)
- Ychwanegodd Rowland Rees-Evans (hefyd yn cynrychioli Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain) fod angen i wleidyddion gefnogi'r diwydiant, ac i'r gwrthwyneb; ar hyn o bryd, mae gwleidyddion yn 'ochri' gyda'r bobl leol
- Ychwanegodd Ros Pritchard (hefyd yn cynrychioli Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain) fod yna fusnesau yn y gymuned sy'n cael eu cefnogi gan dwristiaeth hyd yn oed os nad ydyn nhw'n fusnesau twristiaeth yn benodol; cytunodd DET

**Cwestiynau a thrafodaethau yn y blwch sgwrsio ynglŷn ag ymatebion lleol a'r dryswch ynghylch ail gartrefi**

Clare Hallett: Mae'r sgyrsiau brawychus sydd i'w gweld ar rai tudalennau Facebook lleol ynghylch y gwrthwynebiad i'r posibilrwydd o ymweliadau gan 'bobl o'r tu allan' yn peri pryder mawr. Rydym yn ofni y gallai'r farn hon gael ei gweld fel barn dderbyniol mewn perthynas ag ymwelwyr.

Barbara: Y drafferth yw nad yw mwyafrif y bobl yn gwahaniaethu rhwng ail gartrefi a llety gwyliau ar osod. Mae angen gwahaniaethu rhyngddynt yn glir.

Louise Dixey: A oes unrhyw ymchwil wedi'i wneud yng Nghymru yn gyffredinol, neu ar lefel awdurdodau lleol, ynghylch y gwahaniaeth rhwng effeithiau economaidd perchnogaeth ail

gartrefi a pherchnogaeth llety gwyliau ar osod, yn ogystal â'r effeithiau cymdeithasol cysylltiedig, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, a hynny at ddibenion llywio polisi a'r negeseuon a fynegir i gymunedau?

Laura Thomas: Rob – mae hynny'n wych i'w glywed. A fyddai modd i ni fwydo'r straeon newyddion da lleol hynny o'n hardaloedd i chi? Rydym wedi sylwi ar y sgyrsiau negyddol sydd i'w gweld ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol lleol. Felly, rydym yn paratoi gwybodaeth ynghylch pam mae twristiaeth yn dda i gymunedau, ynghyd â ffeithiau am dwristiaeth, fel y gallwn rannu'r wybodaeth hon yn raddol ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf

Lucy von Weber: Laura, gwnewch hynny os gwelwch yn dda. Byddwn yn codi'r mater hwn mewn fforymau a thrwy gyfryngau'r diwydiant, ond bydd adborth gan gymdeithasau yn hynod werthfawr o ran rhoi rhestr gadarn at ei gilydd fel y gallwn dynnu sylw at y pwyntiau hyn a'u defnyddio mewn cyd-destun negeseuon, yn unol â'r hyn a drafodwyd. Diolch

"Dydyn ni ddim am ymladd yn erbyn y cymunedau!"

**Ymateb DET ynghylch ail gartrefi ac ymatebion lleol**

- Roedd yn awyddus iawn i roi sicrwydd ar hyn
- Mae angen i ni ddarparu gwasanaeth ac arweiniad o'r ansawdd uchaf
- Mae ganddo deimladau personol cryf iawn am faterion sy'n berthnasol i'r maes hwn—yn enwedig mewn perthynas â'r busnesau hynny yn y 'Parth Ambr'
- Mae gwahaniaeth clir iawn rhwng ail gartrefi sy'n breifat a'r rhai sy'n rhan o'r diwydiant
- Mae'r ymateb i'r argyfwng hwn yn parhau i ganolbwyntio ar iechyd y cyhoedd, ac ni fydd yn rhoi dyddiadau ynghylch pryd y bydd sectorau yn agor ymlaen llaw, nac yn gosod targedau
    - Bydd cyhoeddiadau yn cael eu gwneud, ond ni fydd dyddiadau yn cael eu rhoi

Ychwanegodd JT:

- Roedd y neges gychwynnol yn glir: "Hwyl fawr. Am y tro." *("Visit Wales. Later.")*
- Pan fydd y negeseuon yn newid, bydd swyddogion yn ymwybodol o'r sioc i'r diwydiant a'i berthynas â phobl leol
- Y neges am y tro fydd: "Hwyl fawr. Am y tro."
- Roedd JT hefyd yn cydnabod sgil-effeithiau'r economi dwristiaeth
- Mae JT yn ymgysylltu â'r sector ehangach; er enghraifft, mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi codi materion yn ymwneud â sŵau gydag ef
- Mae'r effaith ar y sector manwerthu ehangach a chymunedau yn gysylltiedig.

**Trafododd George Reid (GR) yr arolygon a gynhaliwyd gydag Ashford.** Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf cyn cyhoeddi'r gefnogaeth ariannol, a'r ail arolwg ar ôl hynny.

- Mynegwyd mwy o bositifrwydd yn yr ail arolwg, ond roedd pryderon yn parhau ynghylch y ffaith na fyddai busnesau'n para tan ddiwedd yr haf os na fyddent yn gallu gwneud unrhyw fusnes yn ystod eu cyfnod allweddol.
- Galwodd GR am gofrestr o fusnesau twristiaeth—cofrestr statudol.
- Yn ogystal, awgrymodd GR y gallai busnesau gael caniatâd i agor 'rhannau' o'u busnes, ond nid y cyfan ohono.
    - Er enghraifft, gallai rhannau o'r sector carafanau agor yn gynt gad fod cadw pellter cymdeithasol yn haws.

- Rhoddodd GR ganmoliaeth i Sir Gaerfyrddin am ddyrannu grantiau yn gyflym

Ymatebodd RH:
- Mae ymchwil yn allweddol
- Mae LlC wedi cryfhau ei hymchwil

Ymatebodd JT:
- Mae pryderon ehangach ynghylch effeithiau agor parciau carafanau
- Mae “llety nad yw’n cael ei rannu” yn y 'Parth Ambr'

**Sylwadau pellach gan y rhai a oedd yn bresennol**

Paula Ellis
- Trafododd hunanarlwyo, a’r posibilrwydd o agor y sector hwn cyn sectorau eraill. Ond mewn gwestai, mae arlwyo yn her
- Mae cyfathrebu'n bwysig.
    - Mae diffyg cyfathrebu gyda'r busnesau bach yn y sector busnesau bach a chanolig
- Mae angen anfon canllawiau at y rhai sy'n cyfleu gwybodaeth anghywir

Ashford Price
- Cododd bryderon ynghylch rhuthro’r broses o ddychwelyd i fusnes arferol o safbwynt yr effaith y gallai hyn ei chael ar enw da'r sector
- Mae gan y sector ddyletswydd foesol i'w staff a'r gymdeithas ehangach

Neil Hamilton MS
- Cododd y ffaith bod y llwybr yr ydym wedi’i ddewis yn golygu y bydd yn rhaid i ni aros am frechlyn
- Soniodd am yr effaith y bydd y gefnogaeth ariannol sy’n cael ei darparu ar hyn o bryd yn ei chael ar y diffyg
- Awgrymodd ein bod yn ystyried Sweden fel enghraifft o wlad â pholisïau eraill
- “Nid oes effaith ar fwyafrif llethol y boblogaeth”

**Sylwadau a chwestiynau eraill yn y blwch sgwrsio – Agor y sector a rhoi arweiniad**

Barbara: Mae llawer o fusnesau eisoes wedi cymryd archebion. Heb ddyddiadau, nac unrhyw awgrym ynghylch pryd y bydd llety'n cael agor, rydym yn ei chael hi'n anodd penderfynu pa archebion i’w canslo a phryd i wneud hynny wrth inni symud ymlaen. Mae angen mwy o rybudd ar bobl na thua wythnos.

Clare Hallett: Rydym yn bendant yn dymuno cael canllawiau clir ynghylch unrhyw newidiadau y bydd gofyn i ni eu gwneud yn y sector hunanarlwyo, a hynny cyn gynted â phosibl. Mae cymaint o suon ar led, ond mae’r sefyllfa hon dim ond yn ychwanegu at bryderon llawer o weithredwyr.

Barbara: Cytuno gyda Clare.

Paula: Mae angen i ni ddarparu adnoddau i fusnesau yn y diwydiant i sicrhau ein bod yn cynnig negeseuon cydweithredol ynghylch sut a phryd y gallwn agor yn ddiogel, a hynny er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a'r economi yn y tymor hir.

Laura Thomas: Cytuno'n llwyr â Paula.

Clare Hallett: Cytuno'n llwyr hefyd, Paula.

Barbara: Byddai hyd yn oed cael syniad ynghylch pryd na fyddwn yn gallu agor o gymorth, yn bendant.

**Sylwadau i gloi gan Adrian Walker (Cynghrair Twristiaeth Cymru)**

- Colomennod neu hebogau? Mae'r holl beth yn fater o farn
- Mae pwysau yn y diwydiant
    - Yn benodol, mae pwysau yn y rhannau hynny o'r sector sy’n teimlo bod eu busnesau yn peri 'llai o risg'
- Mae'n rhaid i ni hyrwyddo rôl bwysig y sector twristiaeth i gymunedau lleol—ei werth cymdeithasol yn ogystal â’i werth economaidd.
- Hefyd, mae angen i ni werthuso'r hyn yr ydym wedi’i ddysgu o'r profiad hwn, er mwyn i ni allu gwneud asesiad, sicrhau nad yw camgymeriadau'n cael eu hailadrodd, a sicrhau nad ydym yn dychwelyd i'r fan lle’r oeddem o’r blaen. Codwyd y mater o sefydlogrwydd economaidd go iawn
- Diolch i LlC am ei hymgysylltiad
    - Nid yw popeth wedi bod yn hawdd ac nid yw Cynghrair Twristiaeth Cymru bob amser wedi cydweld â’r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae trafodaethau agored fel arfer wedi arwain at gynnig datrysiadau ar y cyd, ac mae angen i’r drefn honno barhau.
- Diolchodd i Suzy Davies AS am gadeirio'r cyfarfod.

Daeth SD â’r cyfarfod i ben, gan ddiolch i bawb a oedd yn bresennol.

Diwedd y cyfarfod